

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024

# Fersiwn hawdd ei ddarllen

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol



Dyma'r fersiwn hawdd ei deall o Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Pan fo'r ddogfen yn dweud **ni** neu **ein**, mae hyn yn golygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

# Testun Trwm


Efallai bydd rhai geiriau yn anodd eu deall. Mae'r rhain mewn **testun trwm** ac mae esboniad ar gael o dan y gair.

Os oes angen rhagor o wybodaeth am yr adroddiad,

Neu os ydych chi eisiau'r adroddiad mewn fformat arall, fel print bras, rydych chi'n gallu cysylltu â'r Tîm Cydraddoldeb.



Rydych chi'n gallu ymweld â ni yn y Swyddfeydd Dinesig yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.



**Neu ysgrifennu at,**

**Cyfeiriad:** Y Tîm Cydraddoldeb, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB



**Ffôn:** 016565 643664



**E-bost:**

[equalities@bridgend.gov.uk](mailto:equalities@bridgend.gov.uk)

**Beth yw Cynllun Cydraddoldeb Strategol?**



Mae cydraddoldeb yn golygu trin pawb yn deg



Mae gennym ni Gynllun Cydraddoldeb Strategol i wneud yn siŵr ein bod ni yn gwneud beth mae'r gyfraith yn ei ddweud

Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr drin pawb yn deg



Dylai **pawb** gael ei drin yn deg, a theimlo'n dda, yn ddiogel, ac wedi ei barchu

Ni ddylai neb gael ei drin yn wael nac yn annheg.



Mae llawer o bobl yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Rydym ni yn darparu llawer o wahanol wasanaethau i bobl sy’n byw yma, fel,



Casglu biniau

Ysgolion



Cymorth gwasanaethau cymdeithasol

A llawer mwy!



Rydym ni yn credu y dylai pawb gael ei drin yn deg, a theimlo’n dda, yn ddiogel, ac wedi eu parchu

**Amdanom ni**



**Beth yw cynllun cydraddoldeb strategol?**

Mae cynllun yn dweud beth fydd yn digwydd

Mae'r cynllun yn dweud beth fyddwn ni yn ei wneud i wneud yn siŵr bod pawb yn cael ei drin yn deg a gyda pharch.

Mae'r cynllun i bawb sydd,



Yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr



Yn gweithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr



Yn ymweld â Phen-y-bont ar Ogwr

2024


Bydd y cynllun yn para 4 blynedd.




Rydym ni eisiau parhau i gynrychioli ein cymunedau a darparu’r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.



Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr nad oes neb yn cael ei drin yn wahanol, yn wael nac yn annheg.



Mae angen i ni helpu a chefnogi pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu trin yn annheg.



Mae’r gyfraith yn dweud bod gan rai pobl nodweddion wedi eu diogelu.

Ni ddylai neb gael ei drin yn annheg oherwydd:



Pobl o wahanol oedrannau – pobl iau neu bobl hŷn



Pobl drawsryweddol. Mae pobl drawsryweddol yn cael eu geni yn un rhyw ond maen nhw eisiau byw fel y rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy’n edrych fel dyn deimlo fel menyw ar y tu mewn.



Menywod beichiog neu sydd wedi geni plentyn yn ddiweddar




Pobl o wahanol grefyddau neu bobl heb gredoau crefyddol



Pobl **lesbiaid, dynion hoyw** neu bobl ddeurywiol.



Menywod sy’n cael eu denu at fenywod eraill yw lesbiaid



Dynion sy'n cael eu denu at ddynion eraill yw dynion hoyw



Pobl ag anabledd



Pobl briod neu bobl sydd mewn partneriaeth sifil




Pobl sydd efallai yn byw mewn ffordd wahanol neu â lliw croen gwahanol



Pobl sy’n ddyn neu’n fenyw




**Lles**

Mae lles yn trafod pobl yn cadw yn iach ac yn hapus.



Rydym ni eisiau i bobl fod â lles da, yn awr ac yn y dyfodol.



Rydym ni eisiau helpu Cymru gyfan i fod yn fwy cyfartal ac i drin pobl yn deg.



Mae hyn yn golygu y byddwn ni yn ystyried sut bydd ein syniadau a’n cynlluniau yn effeithio ar bobl, yn awr ac yn y dyfodol.

## Pwy wnaethom ni ofyn i'n helpu i ysgrifennu ein cynllun?



Grwpiau lleol yn ein cymunedau




Pobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr



Rheolwyr cynghorau a phobl sy'n gweithio i'r cyngor

Llywodraeth Cymru




Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

## Ein hamcanion cydraddoldeb



Ar ôl gofyn i bobl am y cynllun, fe wnaethom ni benderfynu ar 6 **amcan** cydraddoldeb.



Amcan yw nod yr ydym ni eisiau ei gyflawni.


Bydd gweithio at 6 nod yn ein helpu i wybod a yw pethau yn fwy teg i bobl.

6

Ein hamcanion cydraddoldeb yw,



- Addysg
- Gwaith
- Byw yn dda
- Iechyd a lles
- Diogelwch
- Cymryd rhan



**Addysg**

Rydym ni eisiau gweld bod pawb sy’n cael addysg yn rhydd rhag bwlio a **gwahaniaethu.**



Ystyr gwahaniaethu yw trin rhywun yn annheg.




Gall pobl gael addysg yn yr ysgol, neu yn y gymuned trwy gyrsiau dysgu cymunedol.



Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod unrhyw un yn gallu cael addysg a dysgu.

## Gwaith



Rydym ni eisiau gweld lleoedd gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn bod yn fwy **cynhwysol**.



Mae bod yn gynhwysol yn golygu cynnwys pawb, dim ots pwy yw e na beth yw ei gefndir.



Rydym ni eisiau gweld pawb yn hapus ac yn iach yn ei waith.



Rydym ni eisiau i bawb gael cyfleoedd i wneud yn dda yn ei waith, dim ots pwy yw e na beth yw ei gefndir.

**Safonau byw**

Rydym ni eisiau helpu pobl sy'n byw mewn tlodi.



Mae hyn yn gallu golygu nad oes ganddyn nhw ddigon o arian ar gyfer bwyd neu ddillad.



Neu efallai nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.



Rydym ni eisiau helpu pobl i fyw yn annibynnol, bod ganddyn nhw ddigon o arian a'u bod yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.



Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr ei bod yn rhwydd i bawb ddefnyddio'r gwasanaethau cyngor sydd eu hangen arnyn nhw.

**Iechyd a lles**



Rydym ni eisiau i bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont fyw bywydau hapus ac iach.



Rydym ni eisiau hefyd i'r bobl sy'n gweithio i'r cyngor fod yn hapus ac yn iach.



Rydym ni eisiau helpu pawb i fod yn iach a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau.



Rydym ni eisiau helpu pawb i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

**Diogelwch**



Rydym ni eisiau i'r bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr fod yn ddiogel.



Nid ydym ni eisiau gweld pobl yn poeni am drais na bwlio.



Rydym ni eisiau gweld pobl yn ein cymunedau yn cael eu trin â pharch.



Rydym ni eisiau i'r bobl yn ein cymunedau drin ei gilydd â pharch.

**Cymryd rhan**



Mae'r bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw ac am y gwasanaethau maen nhw yn eu defnyddio.



Rydym ni yn credu y dylem ni ofyn i bobl sut y byddai ein syniadau ni yn effeithio ar eu bywyd nhw.



Rydym ni eisiau gweld y bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cymryd rhan yn y penderfyniadau rydym ni yn eu gwneud.




## Sut byddwn ni yn gwybod bod pethau yn fwy teg

Mae cynghorwyr lleol a’r holl staff sy’n gweithio i’r cyngor yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y cynllun yn digwydd.



Byddwn ni yn datblygu cynllun gweithredu a fydd yn dweud sut byddwn ni yn gwneud pethau yn fwy teg i bawb.




Bob blwyddyn, byddwn ni yn ysgrifennu adroddiad ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn y cynllun, ac yn ei roi ar ein gwefan i bobl ei weld.



Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod popeth rydym ni yn ei wneud yn trin pobl yn gyfartal.




Pan fo pobl yn y cyngor yn gwneud cynlluniau newydd, bydd yn rhaid iddyn nhw gynnal asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb.



Mae asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn ffordd o weld sut mae syniadau newydd y cyngor yn trin pawb yn deg.



Bydd gwneud hyn yn rhoi gwybod i ni a fydd ein syniad yn trin pobl yn deg cyn i ni wneud unrhyw newidiadau.



Byddwn ni yn dweud wrth bobl sy’n gweithio i’r cyngor am gydraddoldeb ac am asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb.



Byddwn ni yn helpu pobl sy'n gweithio i'r cyngor i ddeall cydraddoldeb drwy hyfforddiant.



Byddwn ni yn parhau i ofyn i'r bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr am eu barn ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac a yw pobl yn cael eu trin yn fwy teg.